Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:** Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Chwefror 2024

Ar 2 Hydref 2023, cyflwynwyd y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn y Senedd.

Ar 26 Medi 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Yn yr un cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 26 Ionawr 2024.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 19 Ebrill 2024, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar 20 Chwefror 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar estyniad i drafodion Cyfnod 2 tan 17 Mai 2024.